Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Traeth
# Abermaw
# Gwynedd
# LL42 1HH

## Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2015**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Abermaw yn Sir Gwynedd. Mae 208 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 30 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu yn wyth dosbarth.

Nid oes yr un disgybl o gartref lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 18% y disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Mae 15% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na'r ffigwr cenedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Traeth yn 2014-2015 yw £3,433. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Y Traeth yn yr 81fed safle o'r 95 ysgol gynradd yn Sir Gwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Yn ystod yr arolygiad, roedd yr ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth mewn gofal a oedd yn gweithredu'n flaenorol fel dirprwy bennaeth yn yr ysgol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Mehefin 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn llythrennedd a rhifedd
- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu medrau dwyieithrwydd
- rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac yn ymddwyn yn dda
- llais disgyblion yn cael lle amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol
- profiadau dysgu ysgogol yn bodloni anghenion yr holl ystod o ddisgyblion
- addysgu effeithiol yn galluogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau a'u dealltwriaeth
- yr ysgol yn gymuned ofalgar sy'n darparu cefnogaeth gref i bob disgybl

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth mewn gofal yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion a'r ddarpariaeth addysgol
- yr ysgol yn gymuned ddysgu gref sy'n barod i ymgymryd â blaengareddau newydd
- yr adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da ac yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol
- y weithdrefn hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth
- amrediad o bartneriaethau cynhyrchiol yn cyfrannu'n gryf at gyflawniad a lles disgyblion
- cydweithio effeithiol gydag ysgolion eraill wedi ehangu medrau a datblygiad proffesiynol staff
- yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd llawysgrifen disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod sylwadau athrawon ar waith disgyblion yn gyson dda trwy'r ysgol

A3 Codi cyfraddau presenoldeb disgyblion

A4 Sicrhau bod rhieni yn deall trefn yr ysgol ynglŷn â derbyn cwynion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl ar draws yr ystod oedran yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau ar dasgau, maent yn effro i holi ac ateb cwestiynau ac yn trafod eu tasgau yn hyderus. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhesymu yn effeithiol wrth gyd-gynllunio a datrys problemau ymarferol; er enghraifft, wrth i ddisgyblion Blwyddyn 4 gynllunio taith drên i dref gyfagos. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu arfarnu eu gwaith ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Wrth ymwneud â thasgau unigol neu wrth chwarae rôl, mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd a chydag oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn dangos hoffter tuag at lyfrau ac yn darllen gyda chywirdeb cynyddol gan dalu sylw da i fynegiant a thestun. Erbyn pen uchaf y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n ddealladwy gyda'r rhai mwyaf medrus yn cyflwyno darnau diddorol. Maent fel rheol yn sillafu a ffurfio llythrennau yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu dysgu mewn modd clir a deallus ac mewn pynciau fel gwyddoniaeth a daearyddiaeth, yn defnyddio'r eirfa dechnegol berthnasol. Mae bron pob un yn darllen llyfrau Cymraeg a Saesneg gyda chywirdeb priodol ac maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol ar gyfer cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau fel llyfrau a gwefannau. Mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 5, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus at nifer o ddibenion yn y ddwy iaith ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith. Er bod ychydig o enghreifftiau o lawysgrifen ddestlus, nid yw'r safon yn gyson ar draws y cyfnod allweddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu medrau dwyieithrwydd ac maent yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg ac wrth weithio yn yr ardaloedd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhifedd yn eu gweithgareddau. Maent yn dehongli gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn graffiau neu ddiagramau gwahanol gyda chywirdeb, gan ddefnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Wrth iddynt ymwneud â gweithgareddau ymchwiliol; er enghraifft, darganfod hoff deganau disgyblion y dosbarth, gwnânt ddefnydd effeithiol o dablau a graffiau ar gyfer cofnodi eu canlyniadau.

Erbyn cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynd i'r afael â thasgau rhifedd ymarferol yn systematig. Maent yn ymdrin â gwaith rhif yn hyderus ac mae llawer ohonynt yn gwneud cyfrifiadau yn y pen yn effeithiol iawn. Erbyn blynyddoedd 5 a 6, mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau saith digid a chanrannau'n hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau priodol ar gyfer gwirio eu hatebion. Er bod disgyblion hŷn y cyfnod allweddol yn casglu data o nifer o ffynonellau, anaml iawn y byddant yn cyflwyno gwybodaeth ar ffurf taenlenni.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg, roedd cyfran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig yn y tair blynedd ddiwethaf, yn yr 50% uwch yn gyson mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Roedd y gyfran a gyflawnodd deilliant 6, gan amlaf, yn yr 50% is yn y ddau faes.

Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn yr 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn o leiaf ddwy o'r pedair blynedd, roedd perfformiad cyfnod allweddol 2 ar lefel sy'n uwch na'r disgwyl mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, gan amlaf, yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad Cymraeg ar y lefel uwch yn gyson yn y 25% isaf o ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd a diodydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

Yn ystod gwersi, mae bron pob disgybl yn weithgar a brwdfrydig, maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae safonau ymddygiad yn gyson dda gyda disgyblion yn ymagweddu'n barchus a chwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at greu ethos dymunol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud dewisiadau yn rheolaidd ynghylch eu dysgu ac, erbyn cyfnod allweddol 2, maent yn cyfrannu eu syniadau'n effeithiol i'r hyn maent am ei ddysgu o fewn thema gyfredol eu dosbarth. Mae'r arferion hyn yn cryfhau ymglymiad disgyblion i'w dysgu yn dda.

Trwy'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, mae disgyblion yn manteisio'n dda ar y cyfleoedd defnyddiol iddynt ddylanwadu ar fywyd ehangach yr ysgol. Er enghraifft, buont yn rhan o'r broses o lunio holiadur ar gyfer cywain barn disgyblion ynghylch sut y dylid gwobrwyo presenoldeb da. Caiff gwaith y cyngor ysgol ei ategu'n gryf gan y cynghorau dosbarth.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn

anwastad. Er iddynt fod ymhlith yr 50% uwch o ysgolion tebyg yn ystod dwy o'r pedair blynedd, roeddent yn yr 50% is neu 25% isaf o ysgolion dros weddill y cyfnod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon wrth gyrraedd yr ysgol yn y bore.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu ysgogol a chyffrous sy'n bodloni anghenion yr holl ystod o ddisgyblion. Mae gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ynghyd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, wedi eu hymgorffori'n gadarn yng nghwricwlwm pob dosbarth. Mae cynlluniau tymor hir a rhai tymor byr yn rhoi sylw dyledus i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn sicrhau bod dilyniant a pharhad priodol yn yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r amrediad eang o weithgareddau yn sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u medrau meddwl mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae hon yn nodwedd gref ar draws yr ysgol sy'n cael effaith arwyddocaol ar gynnydd ac ansawdd dysgu disgyblion.

Mae'r Gymraeg yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol, ac yn cael ei datblygu'n llwyddiannus. Trwy nifer o themâu trawsgwricwlaidd fel Cestyll Cymru neu hanes yr ifaciwis yn Harlech, mae'r ysgol yn hyrwyddo hanes lleol a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r defnydd a wna'r ysgol o ymwelwyr ac o ymweliadau i fannau lleol fel gorsaf y bâd achub neu leoedd eraill y tu hwnt i Abermaw, er enghraifft Caerdydd, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach. Mae'r cysylltiadau a grëwyd gyda phlant o Tsiena a Phatagonia yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynyddu eu dealltwriaeth o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn fodelau iaith cadarn i ddisgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd ysgogol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn yr iaith Gymraeg. Mae'r sesiynau, sydd wedi eu cynllunio'n ofalus ac sy'n cynnwys amcanion clir ar gyfer y profiadau dysgu, yn galluogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau a'u dealltwriaeth. Mae pob gwers wedi ei rheoli'n effeithiol gydag athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o wahanol ddulliau addysgu, gan gynnwys gwaith grŵp neu drefniant dosbarth cyfan.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd pwrpasol o wybodaeth asesu ar gyfer olrhain cynnydd pob disgybl trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i drefnu rhaglenni ymyrraeth a chymorth ychwanegol i ddisgyblion yn ôl yr angen.

Mae trefn gadarn wedi'i sefydlu drwy'r ysgol ar gyfer gosod targedau unigol i ddisgyblion. Mae'r arfer yng nghyfnod allweddol 2 o gynnwys disgyblion yn y broses yn grymuso eu medrau dysgu ac yn rhoi mwy o gyfrifoldeb iddynt dros eu dysgu.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion o bob oedran yn rheolaidd. Ar ei orau, mae adborth llafar ac ysgrifenedig athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ynghylch yr hyn y maent wedi'i gyflawni a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd sylwadau athrawon yn amrywio o un dosbarth i'r llall ac, ar adegau, nid oes arweiniad digon clir i ddisgyblion ynghylch sut y gallant wella'u gwaith.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cyflwyno gwybodaeth fuddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ble mae disgyblion yn cael cefnogaeth gref sy'n sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u datblygiad personol a chymdeithasol. Mae cyfnodau addoli ar y cyd, ynghyd â'r cyfleoedd i ddysgu am gredoau pobl o wahanol ddiwylliannau, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Caiff yr agweddau hyn eu cefnogi'n dda gan raglen addysg bersonol a chymdeithasol fanwl a chan ymweliadau rheolaidd gan arbenigwyr allanol, fel yr heddlu.

Mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach a darperir cyfleoedd addas i hybu ffitrwydd disgyblion.

Mae'r strategaethau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, sy'n cael eu gweithredu drwy'r ysgol, yn effeithiol ac yn annog disgyblion i ymbwyllo ac i fod yn fwy ystyriol o deimladau eraill.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu hadnabod yn fuan ac mae cysylltiadau buddiol yn bodoli gydag asiantaethau arbenigol er mwyn cefnogi datblygiad disgyblion. Mae'r rhaglenni ymyrraeth yn bwrpasol ac yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ac mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd y disgyblion hyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n cymryd gofal da o les a diogelwch pob disgybl. Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu trin yn deg a'u bod yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm a holl weithgareddau eraill yr ysgol. Mae'r cyfleoedd cyson sydd ar gael i bob unigolyn gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau, yn hyrwyddo eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol yn effeithiol.

Mae adeilad a thir yr ysgol o ansawdd da ac yn cael eu cynnal a'u cadw i safon briodol. Gwneir defnydd llawn o'r ystafelloedd a'r ardaloedd allanol; er enghraifft ardal chwarae'r Cyfnod Sylfaen sy'n cael ei defnyddio'n ddychmygus i ddarparu amgylchedd dysgu diddorol a chyffrous. Mae'r arddangosfeydd yn yr ystafelloedd yn dathlu gwaith a phrofiadau'r disgyblion yn dda, ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu amgylchedd dysgu ysgogol.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol o ansawdd da yn yr ystafelloedd dysgu. Mae ystod ac ansawdd adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rhagorol ac yn cael eu defnyddio'n briodol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae ansawdd arweinyddiaeth y pennaeth mewn gofal yn dda ac mewn byr amser, wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda holl staff yr ysgol, y llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned. Maent yn cydweithio'n hynod o effeithiol i greu amgylchedd croesawgar a chymuned ddysgu gref.

Caiff y pennaeth mewn gofal gefnogaeth gref gan uwch dîm rheoli ac athrawon gweithgar sy'n deall eu cyfrifoldebau'n drylwyr ac sydd wedi ymrwymo i godi safonau ac i wella ansawdd addysgu a dysgu. O dan arweiniad y pennaeth mewn gofal, maent yn dadansoddi data perfformiad disgyblion yn drylwyr ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at flaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i adnabod grwpiau penodol o ddisgyblion sydd angen darpariaeth wahaniaethol ac i gryfhau agweddau o'r addysgu.

Mae parodrwydd arweinwyr i ymgymryd â blaengareddau newydd a dulliau gwahanol o weithio yn gryfder sy'n arwain at welliant parhaus. Enghraifft nodedig o hyn yw'r defnydd blaengar a wna'r athrawon o lechi electronig ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn drylwyr. Mae gan aelodau'r corff ddealltwriaeth briodol o berfformiad yr ysgol a, thrwy ymweliadau monitro â dosbarthiadau, maent yn datblygu eu rôl fel ffrindiau beirniadol i'r ysgol yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefn glir ar gyfer hunanarfarnu sy'n ystyried ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol briodol. Mae hyn yn cynnwys deilliannau arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, dadansoddi data a chasglu barn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion drwy holiaduron. Mae'r wybodaeth a gesglir trwy'r weithdrefn hunan arfarnu yn cael ei gyflwyno'n briodol i'r llywodraethwyr mewn adroddiadau.

Mae deilliannau'r weithdrefn yn cael eu nodi'n effeithiol yn yr adroddiad hunanarfarnu ac yn rhoi darlun eglur o effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar safonau a lles disgyblion. Mae'n cyfleu darlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r cynllun gwella, sydd wedi ei seilio ar ddeilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu, yn nodi blaenoriaethau gwella yn glir. Mae'r amcanion yn canolbwyntio'n briodol ar wella agweddau penodol sy'n ymwneud â chodi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn glir a mesuradwy gyda'r camau ar gyfer gwella wedi'u hamlinellu'n fanwl.

Dengys prosesau monitro'r cynllun gwella blaenorol bod hunan arfarnu wedi arwain yn llwyddiannus at welliannau mewn safonau a darpariaeth mewn meysydd pwysig fel llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n gryf at godi safonau a gwella lles disgyblion.

Mae'r pennaeth mewn gofal a'r llywodraethwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn y rhieni cyn dod i benderfyniadau pwysig, fel newid gwisg ysgol neu gyflwyno dulliau newydd o ddysgu. Fodd bynnag, nid yw ychydig o rieni yn deall trefn yr ysgol ynglŷn â sut i wneud cwyn pe bai angen.

Mae'r rhieni yn cyfrannu symiau sylweddol tuag at ymgyrchoedd i godi arian tuag at yr ysgol. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer ehangu profiadau disgyblion a darparu adnoddau ychwanegol fel cloriau ar gyfer llechi electronig.

Bu cydweithio llwyddiannus iawn rhwng yr ysgol a'r rhieni wrth i staff drefnu bod disgyblion yn cynnal cyfweliad ffug i lenwi swydd milwr ym myddin Owain Glyndŵr, fel rhan o'r thema. Esgorodd hyn brofiadau dysgu hynod o gyffrous iddynt.

Mae'r arfer o rannu arbenigedd ac arfer dda gydag ysgolion cyfagos yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad proffesiynol staff ac ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r cysylltiadau gydag ysgolion lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn cynyddu dealltwriaeth athrawon o ofynion lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn effeithiol.

Mae partneriaeth weithgar gyda'r gymuned yn cyfoethogi'r profiadau dysgu i'r disgyblion. Mae'r bartneriaeth gyda mudiadau fel yr Urdd, yn nodwedd gref sy'n cyfrannu'n arwyddocaol at ymestyn defnydd y disgyblion o'r Gymraeg ac yn ehangu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Mae cysylltiadau effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol yn galluogi disgyblion i ymgartrefu'n hapus wrth gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau effeithiol gyda'r ysgolion uwchradd hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad priodol o athrawon a chynorthwywyr ar gyfer cyflwyno gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Caiff arbenigeddau staff eu defnyddio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau, a darperir cyfleoedd priodol i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r pennaeth mewn gofal a staff yr ysgol yn mynychu nifer o rwydweithiau dysgu sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd iddynt gydweithio ac ehangu eu medrau a'u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau ac i weithredu'n effeithiol y strategaethau a nodir yn y cynllun gwella.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr holl staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar asesu ac ar y defnydd o lechi electronig drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd i dargedu a gwella safon llythrennedd a darllen grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r pennaeth mewn gofal a'r llywodraethwyr yn monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol ac mae'r holl wariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau gwella. Mae'r adnoddau dysgu yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612181 - Ysgol y Traeth**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 206 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.5 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 19 | 28 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 89.5 | 85.7 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.5 | 85.7 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.3 | 7.1 | 26.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.7 | 96.4 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.6 | 14.3 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 19 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 42.1 | 10.7 | 63.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612181 - Ysgol y Traeth**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 206 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.5 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 18 | 29 | 24 | 28 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 88.9 | 89.7 | 100.0 | 96.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| | | | | |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 29 | 24 | 28 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.4 | 100.0 | 100.0 | 96.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 61.1 | 27.6 | 41.7 | 39.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 3 |
| | | | | |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 29 | 24 | 27 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 89.7 | 95.8 | 81.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 4 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 5.6 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| | | | | |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 29 | 24 | 28 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 89.7 | 100.0 | 96.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.8 | 24.1 | 37.5 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| | | | | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 29 | 24 | 28 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 94.4 | 100.0 | 100.0 | 96.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 34.5 | 58.3 | 39.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | | Disagree / Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 98 | 96 | 98% | 2 | 2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | | 98% | | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 90 | 92% | 8 | 8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | | 92% | | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 98 | 94 | 96% | 4 | 4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | | 97% | | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 98 | 96 | 98% | 2 | 2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | | 97% | | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 93 | 95% | 5 | 5% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | | 96% | | 4% | |
| I am doing well at school | 98 | 93 | 95% | 5 | 5% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | | 96% | | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 98 | 97 | 99% | 1 | 1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | | 99% | | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 98 | 98 | 100% | 0 | 0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | | 98% | | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 83 | 85% | 15 | 15% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | | 91% | | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 87 | 89% | 11 | 11% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | | 95% | | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 86 | 88% | 12 | 12% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | | 77% | | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 98 | 83 | 85% | 15 | 15% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | 84% | | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 36 | 15 | 18 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 42% | 50% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 36 | 21 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 36 | 22 | 13 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 61% | 36% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 36 | 15 | 18 | 1 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 42% | 50% | 3% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 36 | 9 | 19 | 2 | 0 | 6 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 25% | 53% | 6% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 36 | 17 | 16 | 0 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 47% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 36 | 18 | 17 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 36 | 8 | 17 | 4 | 0 | 7 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 22% | 47% | 11% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 35 | 15 | 16 | 3 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 43% | 46% | 9% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 36 | 15 | 20 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 42% | 56% | 3% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 36 | 19 | 14 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 39% | 6% | 3% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 34 | 8 | 17 | 1 | 1 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 24% | 50% | 3% | 3% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 36 | 12 | 18 | 5 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 33% | 50% | 14% | 3% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 36 | 23<br>64% | 10<br>28% | 3<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 36 | 14<br>39% | 15<br>42% | 3<br>8% | 2<br>6% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 35 | 15<br>43% | 16<br>46% | 1<br>3% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 32 | 9<br>28% | 10<br>31% | 2<br>6% | 3<br>9% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 36 | 10<br>28% | 17<br>47% | 7<br>19% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 36 | 16<br>44% | 17<br>47% | 3<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Mair Carruthers | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elin Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.